**<u>Atodiad D – Sylwadau'r Aelod Lleol</u>**

**Sylwadau Aelod Lleol i Adroddiad Cabinet Ysgol Nebo** **11/05/26**

Hoffwn ddiolch i'r swyddogion, staff yr ysgol, y Corff Llywodraethol, y gymuned, rhieni ac yn enwedig y disgyblion am eu hymrwymiad a'u cyfraniad i'r broses yma dros y misoedd diwethaf. Er fy mod yn cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud wrth gynnal yr ymgynghoriad statudol a chrynhoi'r ymatebion, rwy'n parhau yn glir iawn yn fy ngwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Mae'r adroddiad hwn ei hun yn dangos maint y gwrthwynebiad lleol, gyda nifer fawr o'r ymatebion yn tynnu sylw at werth addysgol, cymunedol ac ieithyddol yr ysgol. Mae hefyd yn cydnabod rôl yr ysgol fel calon y gymuned, ei chyfraniad at fywiogrwydd y Gymraeg, a'r effaith bosibl ar lesiant plant a disgyblion bregus pe bai'r ysgol yn cau. Yn fy marn i, nid materion eilaidd yw'r rhain y gellir eu lliniaru wedyn, ond ystyriaethau sylfaenol ddylai fod wrth wraidd y penderfyniad yma.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gosod rhagdybiaeth weithdrefnol glir yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi fod y trothwy uchel hwnnw wedi'i gyrraedd yn achos Ysgol Nebo. Rwy'n parhau o'r farn nad yw pob opsiwn arall wedi'i archwilio'n llawn nag yn ddigon creadigol. Mae hynny'n arbennig o wir yng nghyd-destun yr opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethol i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth arbenigol i gefnogi plant gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol a llesiant. Yn hytrach na gweld hynny fel cyfle strategol, mae'r adroddiad yn parhau i'w asesu bron yn gyfan gwbl ar sail niferoedd cofrestredig a chost fesul dysgwr. Ond ar adeg lle mae cynnydd sylweddol mewn addysg gartref, mwy o bryderon iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc, a mwy o deuluoedd yn chwilio am ddarpariaeth fwy hyblyg a chefnogol, mae angen gofyn a all ysgolion bach fel Ysgol Nebo fod yn rhan o'r ateb yn hytrach na chael eu gweld fel problem i'w dileu.

Mae pryderon dal i fodoli ynghylch y ffigwr cynnal a chadw o £95,000 a nodwyd yn yr ymgynghoriad heb dystiolaeth dechnegol fanwl wedi'i chyhoeddi hyd yma oni bai am arolwg safle gweledol gan swyddogion y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cydnabod y gallai cau'r ysgol gael effaith negyddol ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg ac ar gydlyniant y pentref. Fel Cyngor sydd yn datgan yn gyson ei ymrwymiad i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg, rhaid gofyn pa neges rydym yn ei rhoi os ydym yn cau ysgol Gymraeg gwledig sydd yn parhau i ddarparu addysg dda ac sydd yn greiddiol i'w chymuned.

Nid wyf yn anghytuno bod heriau yn bodoli yn Ysgol Nebo, ond nid wyf yn derbyn mai cau yw'r unig ymateb posibl, nag o reidrwydd yr ymateb gorau yn y tymor hir.

Rwyf yn annog y Cabinet i beidio â symud ymlaen i'r cam hysbysiad statudol, ac yn hytrach ailystyried yr opsiynau amgen mewn modd gwirioneddol agored a rhoi ystyriaeth lawn i ddyfodol cynaliadwy Ysgol Nebo a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.

Yn gywir,
Cynghorydd Dafydd Davies

**Aelod Lleol Ward Clynnog**